# Cymunedau Creadigol AHRC

**Pecyn Cymorth - Modiwl 1:** Ymchwil a Datblygu Cymunedol Sut i gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu ar lefel leol

Mae **Cymunedau Creadigol AHRC** yn rhaglen ymchwil bwysig wedi'i hariannu gan **Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC)** a'i gynnal gan **Brifysgol Northumbria**, sy'n edrych ar sut mae diwylliant sydd wedi'i greu ar y cyd yn gallu gwella ymdeimlad o berthyn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, cyflawni datganoli, a chwalu rhwystrau i gyfleoedd gyda chymunedau mewn lleoliadau datganoledig ar draws pedair gwlad y DU.

Bydd y **Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol** yn datgloi dysgu drwy raglenni ar gyfer cymunedau creadigol, gan eu grymuso i fynd i'r afael â heriau cyffredin drwy ymchwil a datblygu diwylliannol newydd, ac i weithio'n well gyda rhanddeiliaid traws-sector drwy fethodolegau cydweithredol.

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

## Beth yw Cymuned Greadigol?

> Mae Cymuned Greadigol yn disgrifio cydweithrediad ymchwil a datblygu traws-sector sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n dod â phartneriaid amrywiol at ei gilydd, gyda'r amcan cyffredin o greu gwerth economaidd a chymdeithasol drwy ddarparu gweithgaredd diwylliannol newydd.

Mae Adroddiad Manwl Cymunedau Creadigol AHRC yn dangos gwerth cymunedau creadigol a sut maen nhw'n creu ecosystem ymchwil a datblygu gynaliadwy drwy gydweithrediad traws-sector er mwyn cyflawni nod cyffredin.

**Mae partneriaid Cymunedau Creadigol yn**

- Grwpiau Cymunedol ac Ymchwilwyr-Ddinasyddion
- Llywodraeth Ganolog, ee yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon neu'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Cyrff hyd braich ee Cyngor Celfyddydau Cymru
- Y Sector Preifat
- Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Ymchwil Annibynnol
- Y Trydydd Sector ee elusennau, mentrau neu ymddiriedolaethau
- Awdurdod au Lleol

Creative Communities
Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

## Beth yw prif nodweddion Cymuned Greadigol?

- ✓ Creu a strwythuro cydweithredol
- ✓ Edrych tuag allan, yn seiliedig ar leoedd
- ✓ Cyfranogiad cymunedau lleol gyda chynghreiriaid traws-sector (annhebygol weithiau)
- ✓ Prosesau arweinyddiaeth gyffredin
- ✓ Bod yn agored i arbrofi a methu, addasu a chymryd risgiau



## Cymunedau Creadigol a Lleoedd

Mae gweithgareddau'n cael eu cynnal ger mannau lleol yn aml, fel canolfan gymunedol, safle treftadaeth neu gelfyddydol, gan alluogi rhwydweithiau cymdeithasol, diwylliannol, digidol ac economaidd newydd rhwng sectorau a sefydliadau sy'n rhannu diddordebau neu heriau tebyg.

### Beth yw Cymuned Greadigol?

**Ymchwil a Datblygu (UKRI) + Cymuned**

- **Llywodraeth** → = Cymunedau Creadigol
- **Trydydd Sector** → = Addysg a sgiliau iechyd a llesiant balchder dinesig ac ymdeimlad o berthyn arloesi a thwf
- **Sector Preifat** → = Cymunedau cydnerth, cynaliadwy a theg ledled y DU

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

# Cymunedau Creadigol y DU

Cafodd pum **Ymarferydd Arloesi Cymunedol** ar gyfer rhaglen Cymunedau Creadigol AHRC eu hymgorffori mewn ymchwil traws-sector cydweithredol mewn lleoliadau datganoledig ar draws y pedair gwlad yn 2023/24. Darllenwch eu hastudiaethau achos neu wrando ar eu penodau podlediad i gael gwybod mwy.








Roedd **Áine Brady** wedi defnyddio dulliau creadigol yng Ngogledd Iwerddon i fynd i'r afael â hanes o drawma cymunedol:

**Astudiaeth Achos** **Podlediad**



Roedd **Alexander Langlands** wedi gwella sgiliau'r gymuned drwy asedau treftadaeth a chreu lleoedd cynaliadwy yng Nghymru:

**Astudiaeth Achos** **Podlediad**



Roedd **Gaston Welisch** wedi defnyddio ymarfer wedi'i arwain gan ddylunio a gweithio mewn partneriaeth i ffurfio catalydd cymunedol yn yr Alban:

**Astudiaeth Achos** **Podlediad**




Roedd **Georgina Aasgaard** wedi cyd-greu perfformiadau cerddorol yn Lerpwl i wella iechyd a llesiant y gymuned:

**Astudiaeth Achos** **Podlediad**



Roedd **Jim Donaghey** wedi defnyddio dulliau fideo i dynnu sylw at ddiwylliant parciau sglefrio ar lawr gwlad yng Ngogledd Iwerddon:

**Astudiaeth Achos** **Podlediad**

Creative Communities | UK RI Arts and Humanities Research Council | Northumbria University NEWCASTLE

## Beth yw Cyd-greu?

Mae cyd-greu yn ddull cydweithredol lle mae'r bobl sy'n defnyddio rhywbeth yn cael eu grymuso i'w gynhyrchu. Wrth gyd-greu, mae ymchwil yn cael ei gynnal gyda chymuned, yn hytrach nag ar gyfer cymuned; mae'r holl gydweithredwyr traws-sector yr un mor bwysig o ran darparu arbenigedd unigol.



Drwy fanteisio ar ddulliau cyd-greu, mae Cymunedau Creadigol yn gallu cydweithio i gynhyrchu ymchwil a datblygu diwylliannol newydd.

## Nodau Cyd-greu

Nod canolog cyd-greu yw arloesi sy'n seiliedig ar werthoedd fel tegwch ac amrywiaeth, hygyrchedd, cyd-fanteision a dwyochredd rhwng cydweithredwyr.



Roedd ein **Hymarferwyr Arloesi Cymunedol** 2023/24 wedi defnyddio dulliau cyd-greu yn eu cymunedau creadigol i gyflawni nodau cyffredin ar draws y pedair gwlad. Gwrandewch ar y **podlediad Creative Communities** ar-lein i gael gwybod mwy.

## Atebion Cyd-greu

Mae'n hollbwysig buddsoddi i oresgyn y rhwystrau hyn – drwy ail-ystyried cyllid, partneriaethau a modelau datblygu – er mwyn gwireddu potensial arloesol cyd-greu.

Mae ymchwil, datblygu ac arloesi diwylliannol yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â'r cyd-destunau, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r DU heddiw.



Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

| Dyma brif nodweddion cyd-greu effeithiol: | Mae cyd-greu yn gallu arwain at heriau hefyd: |
|---|---|
| **Cymuned:** Wrth gyd-greu, mae ymchwil yn cael ei gynnal gyda chymuned, yn hytrach nag ar gyfer cymuned | **Cysylltiadau:** Mae'n cymryd amser i feithrin cysylltiadau ac mae ansicrwydd yn gallu codi wrth ddiffinio rolau ac atebolrwydd mewn timau cydweithredol â nifer o bartneriaid |
| **Cydweithredu:** Mae'r holl gydweithredwyr yr un mor bwysig o ran darparu arbenigedd unigol | **Iaith:** Mae gwahaniaethau mewn iaith yn gallu dieithrio cydweithredwyr |
| **Y cyd-destun:** Mae cydweithredwyr yn dod ynghyd ar sail nodau cyffredin i greu rhywbeth ystyrlon sy'n dibynnu ar gyd-destunau unigryw | **Ffug-gymunedol ('Community Washing'):** Pobl â phŵer yn mabwysiadu termau fel 'cymuned' a 'chydweithredu' yn ecsbloetiol i ymddangos yn gyfiawn |



Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

# Ymchwil a Datblygu

Drwy hwyluso gweithio agosach rhwng cymunedau, academyddion, y llywodraeth a phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector preifat, gallwn ni greu ecosystem ymchwil a datblygu ystwyth, gydnerth a chynaliadwy drwy gydweithrediad creadigol er mwyn cyflawni nod neu her gyffredin. Gellir defnyddio tri cham gweithredu allweddol i wneud hyn yn bosib:

## 1 Arallgyfeirio ymchwil a datblygu

**Cynnull:** Drwy gael y gymuned i ddangos diddordeb, cyfranogi a chyd-greu, gallwn ni ddatblygu sylfaen fwy amrywiol o ymchwilwyr i dyfu ac arallgyfeirio ymchwil a datblygu diwylliannol.

Mae dod â chymunedau a phartneriaid y trydydd sector a'r sector preifat ynghyd, a'u cynnwys drwy gydol y cylch ymchwil, yn gallu cyflwyno sgiliau, profiad, gwybodaeth a rhwydweithiau newydd i'r maes ymchwil a datblygu, ac yn manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau drwy gydweithio'n agosach ar heriau cyffredin.

## 2 Grymuso ymchwil a datblygu

**Catalyddu:** Drwy roi cymunedau wrth galon y gwaith o ddylunio, gweithredu a gwerthuso diwylliant, mae'r model Cymunedau Creadigol yn darparu fframwaith hyblyg ar gyfer cyfranogiad ar y cyd gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a chymdeithas sifil.

Drwy bartneriaethau traws-sector ystyrlon ac ymrwymiad i gyd-greu cymunedol, gallwn ni greu'r amodau lle mae ymchwil ac arloesi diwylliannol yn cael eu gwneud gan bawb, ac ar gyfer pawb.

## 3 Tyfu ymchwil a datblygu

**Cyfrannu:** Drwy ddod â phartneriaid traws-sector amrywiol ynghyd, mae Cymunedau Creadigol yn hybu mynediad at ffynonellau gwybodaeth, yn adeiladu capasiti ar sail diwylliant ac ymchwil a datblygu, ac yn grymuso cymunedau i greu adnoddau newydd ac ailddefnyddio rhai sy'n bodoli'n barod.

Drwy rannu gwybodaeth, adnoddau a rhwydweithiau, mae Cymunedau Creadigol yn creu gwerth ychwanegol ac yn cynhyrchu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i bartneriaid ymchwil a chymdeithas ehangach.

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

# Cymunedau Creadigol AHRC

## Am beth hoffech chi wybod mwy?

### Sut mae eraill wedi adeiladu cymuned greadigol?

Mae ein **Hymarferwyr Arloesi Cymunedol 2023/24** yn rhannu syniadau arloesol a straeon ysbrydoledig o'u gwaith ymchwil fel rhan o gymunedau creadigol mewn cyd-destunau datganoledig ar draws y pedair gwlad drwy **astudiaethau achos**, **papurau polisi**, a'r **gyfres podlediadau** maen nhw wedi'i chyd-greu.

### Sut i gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu fel cymuned greadigol?

Bydd **Gwobrau Rhwydwaith Polisi Co-Lab** 2026 yn creu capasiti newydd ar gyfer cyfnewid syniadau polisi mewn cysylltiad â diwylliant a datganoli (rhanbarthol a chenedlaethol) mewn modd cydweithredol traws-sector yng nghyd-destun Cenadaethau Llywodraeth y DU.

### Sut mae codi proffil eich gwaith ymchwil a datblygu diwylliannol?

**Modiwlau 2, 3 a 4 Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol:** Dysgwch sut mae codi proffil eich ymchwil fel cymuned greadigol. Mae'r modiwlau hyn yn y Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol yn gallu eich helpu i ddeall gwahanol ffyrdd o gyfathrebu â chynulleidfaoedd amrywiol, ac ennyn eu diddordeb.

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE